

## Tasg 1

# Hoffech chi bleidleisio pan fyddwch chi'n 16 oed?

1.

Darllenwch y drafodaeth.

Gyda phartner, nodwch enwau'r rhai sydd **o blaid** ac **yn erbyn** pleidleisio pan fyddan nhw'n 16 oed yn y tabl hwn:

Enwau'r rhai sydd <u>o blaid</u> cael pleidleisio pan fyddan nhw'n 16 oed	Enwau'r rhai sydd <u>yn erbyn</u> cael pleidleisio pan fyddan nhw'n 16 oed

Mae 9 disgybl i gyd. Ydy'r **mwyafrif** o blaid neu yn erbyn cael pleidleisio yn 16 oed?

2.

Edrychwch ar bob dadl yn y tabl.

Penderfynwch a yw hi'n ddadl **o blaid** neu **yn erbyn** cael pleidleisio yn 16 oed.

Rhowch groes **o blaid** neu **yn erbyn** bob tro.

Dadleuon	O blaid	Yn erbyn
"Mae gen i ddiddordeb ym mhopeth sy'n digwydd yng Nghymru."		
"Mae'n rhaid bod yn 18 oed i gael tatŵ, felly ddylen ni ddim cael pleidleisio yn 16 oed."		
"Dwi eisiau pleidleisio dros blaid sy'n mynd i gael mwy o brentisiaethau i bobl ifanc."		
"Os ydw i'n gallu priodi yn 16 oed, dylwn i gael pleidleisio hefyd."		
"Dwi ddim yn siŵr ein bod ni'n barod i bleidleisio pan fyddwn ni'n 16 oed."		
"Ar ôl cael gwersi dinasyddiaeth, rydyn ni'n barod i bleidleisio pan fyddwn ni'n 16 oed."		
"Dydy llawer o ddisgyblion ddim yn gwybod beth maen nhw'n ei gredu eto."		

3.

Beth yw eich barn chi? Efallai eich bod chi'n cytuno â rhai pwyntiau, ac yn anghytuno â rhai eraill.

- Gyda phartner, defnyddiwch y tabl i greu **chwe brawddeg** gan ddefnyddio dechrau a diwedd y frawddeg bob tro.
- Dywedwch eich **chwe brawddeg** yn uchel.
- Yna dewiswch **dair brawddeg** i'w hysgrifennu.

Dechrau'r frawddeg	Diwedd y frawddeg
Dwi'n cytuno	y dylen ni gael pleidleisio yn 16 oed. na ddylen ni gael pleidleisio yn 16 oed.
Dwi'n anghytuno	ein bod ni'n barod i bleidleisio pan ydyn ni'n 16 oed.
Dw i o'r farn	nad ydyn ni'n barod i bleidleisio pan ydyn ni'n 16 oed.
Dw i ddim o'r farn	nad ydyn ni'n deall digon am Gymru i bleidleisio pan ydyn ni'n 16 oed.
Dwi'n siŵr	ein bod ni'n deall digon am Gymru i bleidleisio pan ydyn ni'n 16 oed.
Dwi ddim yn siŵr	nad ydyn ni'n deall digon am Gymru i bleidleisio pan ydyn ni'n 16 oed.
	y bydd llawer o'r pethau sy'n digwydd yn y Cynulliad yn cael effaith arnon ni.
	nad yw disgyblion yn gwybod beth maen nhw'n ei gredu.
	y dylen ni gael pleidleisio os ydyn ni'n cael priodi yn 16 oed.
	na ddylen ni gael pleidleisio os ydyn ni'n cael priodi yn 16 oed

Dewiswch **dair brawddeg** i'w hysgrifennu yma.

1.

2.

3.

Faint o'r dosbarth sydd o blaid ac yn erbyn cael pleidleisio pan fyddwch chi'n 16 oed? Beth am gynnal pleidlais gyflym i weld?

4.

Beth yw barn y dosbarth am y ffaith fod rhaid bod yn 18 oed cyn:

- cael tatŵ?
- defnyddio gwely haul?
- prynu alcohol?
- gamblo?

Beth yw'r rheswm dros y rheolau hyn, yn eich barn chi?

Ydych chi'n adnabod rhywun sydd wedi gwneud un o'r pethau hyn **cyn** ei fod/ei bod yn 18 oed?

5.

Cysylltwch y geiriau sydd â'r un ystyr:

pleidleisio	mwy hen', 'henach'
cael effaith ar	ddim yn gallu
hŷn	pobl 18 oed a throsodd
methu	bwrw pleidlais
oedolion	effeithio ar

6.

Beth yw barn Carwyn Jones, Prif Weinidog Cymru, am roi'r bleidlais i bobl ifanc 16 oed?  
Darllenwch ei ateb i holiadur *Gweiddi* yn y rhifyn hwn.